

# CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
# ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

**Gwanwyn
Spring
2026**

"Canolfan wych ar gyfer arddangos y celfyddydau"

"The Arts Centre will always have a special place in my heart"

## Swper cyn sioe | Pre show Supper

Edrychwch allan am y symbol hwn! Swper cyn y sioe ar gael, e-bostiwch artscafe@aber.ac.uk i gadw eich lle. Gosodir bwydlenni ar-lein cyn y digwyddiad.

Look out for this symbol! Pre-show Supper available, email artscafe@aber.ac.uk to reserve your space. Menus to be released online prior to the event.





**"A great opportunity to catch up with friends in the bar before the performance"**

### Barod am Amser Da?

Mae croeso Cymreig i bawb yng Nghanolfan y Celfyddydau. O ddigwyddiadau byw i un o siopau gorau'r dref. O wersi amrywiol i'r dosbarth ioga. O'r sinema i'r arddangosfeydd celf. O'r caffi â'r olygfa o'r môr. Dyma'r lle am amser da yn Aberystwyth.

### Ready for some Time Well Spent?

There's a Welsh welcome for everyone at the Arts Centre. From live events to one of the best shops in town. From a variety of classes to our yoga sessions. From the comfy cinema to the art exhibitions, and the Cafe with amazing views. We're the place for time well spent in Aberystwyth.

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Llun clawr/Cover image
ACE Dance and Music: TWAWSI: The World As We See It

## Cynnwys Contents


4 **Cerdd** | Music
16 **Theatr** | Theatre
19 **Dawns** | Dance
21 **Teulu** | Family
25 **Comedi** | Comedy
26 **Gair Llafar** | Spoken Word
28 **Cyn bo hir** | Coming Soon
30 **Sinema** | Cinema
32 **Arddangosfeydd** | Exhibitions
40 **Dysgu Creadigol** | Creative Learning
46 **Gwybodaeth** | Information
50 **Ein cyfeillion** | Our Friends
51 **Dyddiadur Digwyddiadau Byw** | Live Event Dairy


## Bwyd a Diod Food and Drink

Ar agor yn ddyddiol. Ewch i'r wefan am amseroedd agor.

Open daily. Visit the website for opening times.






## Caffi | Café

Prydau poeth a salads ffres
Cacennau a choffi gwych
Cynyrch Cymreig
Opsiynnau llysieuol, di-glwten a figan

Freshly made hot meals and salads
Great cakes and coffee
Welsh produce
Vegetarian, gluten free and vegan options

## Bar y Theatr | Theatre Bar

Dewis eang o winoedd, cwrw a gwirodydd
A variety of wines, beers and spirits



## Siop | Shop

Ar agor yn ddyddiol. Ewch i'n gwefan am amseroedd | Open daily. Visit our website for times.



**"It is a great venue. I like being able to combine a visit to the theatre with viewing the exhibitions and enjoying the food in the cafe. The gift shop is also excellent**

CYMDEITHAS GORAWL ABERYSTWYTH CHORAL SOCIETY

# Rossini: Petite Messe Solennelle

## with Sinfonia Cambrensis

**Arweinydd | Conductor – David Russell Hulme**

**Ionawr 24 January 7:30pm**



Cyfansoddodd Rossini ei Offeren dros dri degawd ar ôl ei opera olaf. Cyfeiriodd at y gwaith annisgwyl hwn yn hwyr yn ei fywyd fel 'pechod fy henaint'. Nid oedd amser, fodd bynnag, wedi pylu ei ddisgleirdeb cerddorol - na'i ffraethineb. Er gwaethaf teitl y darn, nid yw'r *Petite Messe Solennelle* yn fach neu'n ddwys! Mae'n ddarn disglair, cyffrous, sy'n arddangos ysgrifennu corawl gwych a dawn operatig ddigyffelyb Rossini.

Rossini composed his Mass over three decades after his final opera. 'A sin of my old age,' he called this unexpected product of his twilight years. Time, though, had not dulled his musical brilliance - nor his wit. Despite its title, the Petite Messe Solennelle is neither petite nor solemn! It is a radiant, thrilling piece, showcasing great choral writing and Rossini's inimitable operatic flair.

**£16.50 (£15.50 - £4.50)**



VOCALISE STUDIO – VOCAL COACHING

# An Evening with Vocalise Studio & Friends

**Ionawr 30 January 7pm**

Mae Vocalise Studio yn dychwelyd i'r Stiwdio Gron am eu hail berfformiad byw, yn cynnwys myfyrwyr y Gweithdy Perfformio 12-wythnos ochr yn ochr â gwesteion arbennig S3BA a Just501. Gyda chyfarwyddyd cerddorol gan James Salmon a set flaenllaw gan The Full House of Swing, mae'r noson agos-atoch hon, mewn steil cabare, yn addo perfformiadau bywiog, talent leol, a dathliad o gerddoriaeth fyw.

Vocalise Studio returns to the Round Studio for its second live showcase, featuring students from the 12-week Performance Workshop alongside special guests S3BA and Just501. With musical direction by James Salmon and a headline set from The Full House of Swing, this intimate, cabaret-style evening promises vibrant performances, local talent, and a celebration of live music.

**£16.50**



Cerdd | Music

FOCUS WALES & CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH ARTS CENTRE YN CYFLWYNO:PRESENTS

# TRAWSNEWID :TRANSFORM 2026

CHWEFROR 6 & 7 FEBRUARY
ABERYSTWYTH

DYDD GWENER / FRIDAY

## A GUY CALLED GERALD

ADULT DVD/GEORGIA RUTH/
LEMFRECK/GALLOPS/
YNYS/SOURCE/
MALAN/CLAIRE VINE/
RESONATE DJS/SGARMES
PANORAMA MAPPING/
+MWY:MORE

A UNIQUE FESTIVAL OF
AUDIO VISUAL EXPLORATION
GŴYL UNIGRYW O ARCHWILIO CLYWELEDOL

DYDD SADWRN / SATURDAY

## THE BUG CLUB

MELIN MELYN/
TRISTWCH Y FENYWOD/
COWBOIS RHOS BOTWNNOG/
HMS MORRIS/XEMPA/
TALULAH/TAI HAF
HEB DRIGOLYN/
MALI HÂF/CYMBIENT/
MOWBIRD/2080S/
MISSING PERSONS BUREAU/
DON LEISURE:TYRCHU SAIN/
PANORAMA MAPPING/
+SGYRSIAU:TALKS WITH
GARLLEG/FIRE IN THE MOUNTAIN/
FOCUS WALES/RESONATE/AAC

Mae Ffocws Cymru a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth wrth eu bodd yn cyhoeddi Trawsnewid : Transform 2026. Mae'r ŵyl unigryw ddeuddydd hon yn arddangos artistiaid blaenllaw Cymru mewn cymysgedd ymdrochol o gerddoriaeth fyw ac effeithiau gweledol arloesol a grëir gan yr artistiaid, gan drawsnewid y Ganolfan yn lle chwarae sain a golau.

Focus Wales & Aberystwyth Arts Centre are excited to announce Trawsnewid: Transform 2026. This unique two-day festival showcases Wales' leading artists in an immersive blend of live music and cutting-edge visuals, created by the artists, transforming the Arts Centre into an immersive playground of sound and light.

**£51.50, £31.50 (£46.50)**

HANDSHAKE LTD

# Emilio Santoro as Elvis

**14 Chwefror / February 8pm**



Gwisgwch eich 'sgidiau dawnsio a byddwch yn barod i symud i'r caneuon Roc a Rôl mwyaf erioed gan gynnwys Jailhouse Rock, Devil in Disguise, Can't Help Falling in Love, Hound Dog, Suspicious Minds a llawer mwy.

Peidiwch â methu'r cyfle hwn i weld Artist Teyrnged mwyaf blaenllaw'r byd i Elvis - yn swyddogol!

Put on your 'Blue Suede Shoes' and get 'All Shook Up' for the greatest Rock 'n' Roll hits of all time, including Jailhouse Rock, Devil in Disguise, Can't Help Falling in Love, Hound Dog, Suspicious Minds & many more.

Don't miss this chance to see the official number one Elvis Tribute Artist in the world!

**£30**



WME

# Stereolab

## Special Guest Emma Tricca

**17 Chwefror / February 8pm**

Bydd Stereolab yn chwarae eu sioe gyntaf erioed yn Aberystwyth. Disgwyliwch draciau o'u halbwm newydd Instant Holograms On Metal Film, ynghyd â chaneuon o'u hôl-gatalog helaeth.

Stereolab will play their first-ever show in Aberystwyth. Expect tracks from their new album 'Instant Holograms On Metal Film', plus songs from their extensive back catalogue.

**£31.50 - £36.50**

Cerdd | Music





CHANYA CULTURE

CYMRAEG MANDINKA CONNECTIONS

# Mari Mathias & Sura Susso

**21 Chwefror / February 7:30pm**

Mae Cymraeg Mandinka Connections yn archwilio tebygrwydd mewn adrodd straeon llên gwerin trwy gerddoriaeth yng Nghymru a Gambia. Mae'r gantores Gymreig Mari Mathias a'r chwaraewr kora o Gambia, Sura Susso, yn cyfuno straeon hynafol a modern, gan berfformio yn eu Cymraeg a Mandinka frodorol. Mae Sura, o dras griot, yn cadw traddodiadau Gorllewin Affrica, tra bod Mari yn ailddychmygu mytholeg Cymru. Gyda'i gilydd, maent yn tynnu sylw at hunaniaeth ddiwylliannol, gwarchod iaith, ac yn cysylltu cynulleidfaoedd cyfoes gyda thraddodiadau adrodd straeon canrifoedd oed.

Cymraeg Mandinka Connections explores similarities in folklore storytelling through music in Wales and Gambia. Welsh singer Mari Mathias and Gambian kora player Sura Susso merge ancient and modern tales, performing in their native Welsh and Mandinka. Sura, from a griot lineage, preserves West African traditions, while Mari reimagines Welsh mythology. Together, they highlight cultural identity, preserve language, and connect contemporary audiences with centuries-old storytelling traditions.

**£19.50**

SINFONIA CYMRU

# Folk, Fire & The Cello

**27 Chwefror / February 7pm**

O alawon cynhyrfus Dobrinka Tabakova i egni crai Bartók, dyma gyngerdd sy'n daith wyllt trwy weadau daearol a chyferbyniadau cyffrous. Ymunwch â ni wrth i enillydd cystadleuaeth Cerddor Ifanc y BBC, Laura van der Heijden, sy'n adnabyddus am ei chwarae 'meddylgar, pwerus a didwyll' (BBC Music Magazine), arwain Sinfonia Cymru mewn noson wefreiddiol.

From the stirring melodies of Dobrinka Tabakova to the raw energy of Bartók, this concert is a wild journey through earthy textures and thrilling contrasts. Join us as BBC Young Musician winner Laura van der Heijden, celebrated for her 'deeply thoughtful, powerful and sincere' playing (BBC Music Magazine), leads Sinfonia Cymru in an evening that's as exhilarating as it is heartfelt.

**£19.50 (£17.50 - £4.50)**






AP CHORAL LTD

## Johns' Boys Welsh Male Choir

**1 Mawrth / March 3pm**

Yr unig gôr o Brydain erioed i gael ei goroni yn Gôr y Byd, mae Côr Meibion Johns' Boys yn dychwelyd yn 2026 gyda'u Taith Penblwydd yn 10 oed, yn dilyn blwyddyn o gyngherddau a werthodd allan ledled y DU a thaith hynod lwyddiannus yng Nghanada. Yn enwog am eu harmonïau cyffrous, ymddangosiadau ar deledu cenedlaethol a'u presenoldeb llwyfan unigryw, maent yn cyflwyno rhaglen sy'n cynnwys sioeau cerdd, ffefrynnau'r siartiau a chlasuron Cymreig. Profwch eu taith o gerddoriaeth ac undod yn y dathliad nodedig hwn.

The only British choir ever crowned Choir of the World, Johns' Boys Welsh Male Choir, returns in 2026 with their 10th Anniversary Tour, following sold-out UK concerts and a triumphant Canadian tour. Celebrated for spine-tingling harmonies, national TV appearances, and unforgettable stage presence, they present a programme spanning musicals, chart hits, and Welsh classics. Experience their journey of music and unity in this landmark celebration.

**£28.50 (£26.50)**

## Stan Tracy's Under Milk Wood Jazz Suite

**Gyda / With Sian Lloyd, Phyl Harries & DT Jazz Ensemble**

**3 Mawrth / March 7:30pm**

Ystyrir Under Milk Wood Stan Tracey yn garreg filltir ym myd jas Prydeinig ac yn waith diffiniol y pianydd-gyfansoddwr. Wedi'i ysbrydoli gan ddrama radio Dylan Thomas, mae'n trawsnewid byd swreal, telynegol Thomas yn jas modern. Yn hytrach nag ail-adrodd y testun, mae'n paentio brasluniau cymeriad byw fel Starless a Bible Black a No Good Boyo. Yn feiddgar, yn ffraeth, ac yn delynegol, mae'r gyfres hon yn addo noson na ddylid ei methu i ffans jas a Dylan Thomas fel ei gilydd

Stan Tracey's Under Milk Wood is hailed as a landmark of British jazz and the pianist-composer's defining work. Inspired by Dylan Thomas's radio play, it transforms Thomas's surreal, lyrical world into modern jazz. Rather than retelling the text, it paints vivid character sketches like Starless and Bible Black and No Good Boyo. Bold, witty, and lyrical, this suite promises an unmissable evening for jazz and Dylan Thomas fans alike.

**£18.50 (15.50 – 11.50)**







## Kathryn Tickell & The Darkening

**4 Mawrth / March 8pm**

O gysgod Wal Hadrian yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, mae Kathryn Tickell a The Darkening yn estyn allan i'r byd ehangach, gan gysylltu edeifion cerddoriaeth, tirwedd a phobl dros bron i 2000 o flynyddoedd. Wedi eu henwi ar ôl yr hen air Northymbraidd am gyfnos, mae 'The Darkening' yn cynnwys: Kathryn Tickell (pibau bach Northymbraidd, ffidil, llais), Amy Thatcher (acordion, clocsiau, synth, llais), Tim Bloomer (gitâr), Joe Truswell (drymiau) a Stef Conner (llais, telynau bach).

From the shadow of Hadrian's Wall in the north east of England, Kathryn Tickell & The Darkening reach out to the wider world, connecting threads of music, landscape and people over almost 2000 years. Named after the old Northumbrian word for twilight, 'The Darkening' is: Kathryn Tickell (Northumbrian small pipes, fiddle, vocals), Amy Thatcher (accordion, clogs, synth, vocals), Tim Bloomer (guitar), Joe Truswell (drums), and Stef Conner (vocals, lyres).

**£25.50**

## Calling Planet Earth

**6 Mawrth / March 8pm**




Dewch i ail-fyw'r 80au gwefreiddiol gyda Rhamant Newydd, Synth Pop, Ton Newydd, gan fynd â chi'n syth yn ôl i lawr dawns y clwb nos. Canwch, dawnsiwch, a phartïwch i ganeuon bythgofiadwy gan Duran Duran, Spandau Ballet, Ultravox, Visage, Tears for Fears, ABC, Japan, Yazoo, Human League, Eurythmics, a rhagor. Gyda band byw anhygoel, lleisiau syfrdanol, a threfniannau pwerus, y sioe hon yw'r profiad 80au eithaf - hudoliaeth retro pur!

Relive the electrifying 80s with New Romantic, Synth Pop, and New Wave, taking you straight back to the nightclub dance floor. Sing, dance, and party to unforgettable hits from Duran Duran, Spandau Ballet, Ultravox, Visage, Tears for Fears, ABC, Japan, Yazoo, Human League, Eurythmics, and more. With an incredible live band, stunning vocals, and powerful arrangements, this show is the ultimate 80s experience, pure retro magic!

**£31**



PLAYPEN MANAGEMENT & AGENCY

## Spiers & Boden

**10 Mawrth / March 7:30pm**

Mae Spiers a Boden, a ddisgrifiwyd gan y Guardian fel 'y deuawd offerynnol gorau ar y sîn draddodiadol', wedi bod ar flaen y gad ym myd cerddoriaeth werin Lloegr ers 25 mlynedd, fel deuawd arloesol ac hefyd fel aelodau sefydlu'r band Bellowhead. Ar ôl seibiant o saith mlynedd, buont yn dychwelyd yn 2021 gyda Fallow Ground (Hudson Records), gan gyffroi cynulleidfaoedd orlawn gyda cherddoriaeth werin acwstig octan-uchel. Yn enillwyr Gwobr Werin BBC Radio 2, maent yn parhau i fod ymysg perfformwyr mwyaf poblogaidd a deinamig y byd gwerin.

Spiers & Boden, hailed by *The Guardian* as "the finest instrumental duo on the traditional scene," have led English folk for 25 years, both as a groundbreaking duo and founders of Bellowhead. After a seven-year hiatus, they returned in 2021 with *Fallow Ground* (Hudson Records), thrilling packed venues with high-octane acoustic folk. BBC Radio 2 Folk Award winners, they remain one of folk's most loved and dynamic acts.

**£23.50 (£19.50)**



## Philomusica Aberystwyth

**14 Mawrth / March 7:30pm**

Profwch alawon ysgubol *My Fair Lady* (Frederick Loewe), *West Side Story* (Leonard Bernstein), a *The Big Country* (Jerome Moross), ochr yn ochr â cherddoriaeth ddiamser gan John Williams a Henry Mancini. Arweinydd: Iwan Teifion Davies

Experience the sweeping melodies of *My Fair Lady* (Frederick Loewe), *West Side Story* (Leonard Bernstein), and *The Big Country* (Jerome Moross), alongside timeless music by John Williams and Henry Mancini.
Conductor: Iwan Teifion Davies

**£13.50 - £10.50 (£12.50 - £3.50)**

CERDDORFA GENEDLAETHOL CYRMU
BBC NATIONAL ORCHESTRA OF WALES

## Magic & Melodies

**19 Mawrth / March 7:30pm**



Mae chwythbrennau disglair yn cyd-fynd â llinynnau bywiog, mae alawon gwerinol yn plethu â dawns llawn egni ac mae rhuthr anterthol yn gwneud lle i ysblander urddasol yn Symffoni Gyntaf swynol a gaeafol Tchaikovsky, sy'n arddangos ei grefftwaith symffonig unigryw o'r dechrau.

Dazzling woodwinds tarry with bustling strings, folk-like melodies weave with vibrant dance, and climactic rushes make way to stately grandeur in Tchaikovsky's charmingly wintery First Symphony, oozing his trademark symphonic craftsmanship from the off.

**£16.50 (£13.50 - £7.50)**



Cerdd | Music

HANDSHAKE LIMITED

## The Legend of Barry White: Let The Music Play

**27 Mawrth / March 8pm**

Yr unig sioe deithiol yn y DU sydd wedi'i chysegru i Barry White, mae'r sioe glodwiw Americanaidd hon yn serennu William Hicks, "y dyn mawr gyda'r llais mawr." Gyda chefnogaeth Soul Unlimited a Motown Supreme Dreamgirls, mae William yn sianelu bas-bariton sidanaidd Barry gyda dilysrwydd syfrdanol. Yn cynnwys caneuon poblogaidd sydd wedi gwerthu miliynau fel *You're the First, the Last, My Everything* a *Let the Music Play*, y sioe hon yw'r deyrnged eithaf i'r Maestro Serch.



The only UK touring show dedicated to Barry White, this acclaimed US revue stars William Hicks, "the big man with the big voice." Backed by Soul Unlimited and Motown Supreme Dreamgirls, William channels Barry's silky bass-baritone with stunning authenticity. Featuring million-selling hits like *You're the First, the Last, My Everything* and *Let the Music Play*, this show is the ultimate tribute to the Maestro of Love.

**£31**



PHIL ALDRIDGE PRODUCTIONS


## The Illegal Eagles

**10 Ebrill / April 8pm**

Mae'r Illegal Eagles yn dathlu 30 mlynedd ar y ffordd gyda'u Taith Hotel California yn 2026, gan berfformio'r albwm eiconig yn llawn ochr yn ochr â chlasuron eraill yr Eagles. Yn enwog am eu gallu rhyfeddol i ail-greu sain unigryw'r Eagles, maent yn addo noson fythgofiadwy o atgofion a hud cerddorol.

The Illegal Eagles celebrate 30 years on the road with their 2026 Hotel California Tour, performing the iconic album in full alongside other timeless Eagles classics. Renowned for their uncanny ability to recreate the legendary sound of the Eagles, they promise an unforgettable evening of nostalgia and musical magic.

**£40**



PARTH MELYN

HANDSHAKE LIMITED

## Bronwen Lewis

**11 Ebrill / April 7:30pm**

Wedi hir ddisgwyl, mae seren BBC Radio Wales, Bronwen Lewis, yn dychwelyd i Ganolfan y Celfyddydau gyda'i thaith 'Big Night In'. Mae'r aml-offerynwraig sydd mor boblogaidd ar Tik-Tok yn edrych ymlaen yn fawr at rannu ei chaneuon a straeon newydd gyda chi, a berfformir ochr yn ochr â ffefrynnau o'i halbymau blaenorol a'i fersiynau unigryw hi o glasuron traddodiadol Cymreig.

BBC Radio Wales star Bronwen Lewis returns to the Arts Centre with her 'Big Night In' tour. The multi-instrumental player TikTok sensation can't wait to share her new songs and stories with you, which she will perform alongside fan favourites from previous albums and much-loved covers of traditional Welsh classics.

**£39.50 - £36.50 (£19)**

HAKA ENTERTAINMENT

## A Night of Musical Theatre with HAKA Entertainment

**11 Ebrill / April 3pm**

Mae HAKA Entertainment yn falch iawn o ddychwelyd i lwyfan Theatr y Werin ar gyfer Noson o Theatr Gerddorol! Bydd sêr byd y Theatr Gerddorol yn ymuno â thîm o arweinwyr cwrs lleol i ddod â noson gyffrous o ganeuon o'r llwyfan a'r sgrîn i chi. Bydd y noson yn nodweddu myfyrwyr o gwrs Theatr Gerddorol Haka a gynhelir yn ystod y tridiau cyn y digwyddiad.

HAKA Entertainment are delighted to return to the Theatr y Werin stage for a Night of Musical Theatre! Stars of the Musical Theatre world will team up with a team of local course leaders to bring you an exciting night of songs from stage and screen, and will feature students from the Haka MT course, which takes place in the three days leading up to the event.

**£18 (£15.50)**





Cerdd | Music

## Eve Goodman & SERA

**15 Ebrill / April 7:30pm**

Mae'r cantorion-gyfansoddwyr o Ogledd Cymru, Eve Goodman a SERA, yn rhannu eu prosiect cydweithredol hir-ddisgwyliedig yn y Gymraeg, *Natur*, emyn o gariad i gylchredau menywod a natur. Gyda harmonïau hyfryd a chasgliad cyfoethog o ganeuon gwerin cyfoes, mae'r ddeuawd greadigol yn cyfleu harddwch gwyllt y dirwedd Gymreig sy'n eu hysbrydoli.



North Wales-based singer-songwriters Eve Goodman and SERA share their long-awaited collaborative Welsh-language project Natur, a hymn of love to the cycles of women and nature. With luscious harmonies and a rich collection of contemporary folk songs, the creative duo capture the wild beauty of the Welsh landscape that inspires them.

**£16.50**

SOUL BROTHERS SYNDICATE

## Darrell Smith and the Soul Brothers Syndicate

### plus Special Guests

**17 Ebrill / April 8pm**

Mae'r Soul Brothers Syndicate, gyda Darrell Smith a Grace Curran, yn cyflwyno sioe fyw gyffrous sy'n cynnwys Cerddorfa Northern Soul 20-darn. Yn arwydd o barch mwy na theyrnged, mae'r band yn llenwi pob cyngerdd gydag ysbryd a hiwmor. Wedi'i hadrodd ar ffurf llinell amser, mae'r sioe'n teithio o ddechreuadau Northern Soul yn y Twisted Wheel ym Manceinion a'r Golden Torch yn Stoke, i Fecca Blackpool a Chasino enwog Wigan.

The Soul Brothers Syndicate, with Darrell Smith and Grace Curran, present a thrilling live show featuring a 20-piece Northern Soul Orchestra. More homage than tribute, the band infuses each concert with spirit and humour. Narrated in a timeline style, the show journeys from Northern Soul's beginnings at Manchester's Twisted Wheel and Stoke's Golden Torch to the Blackpool Mecca and legendary Wigan Casino.

**£35.50**



Cerdd | Music

HIGHLAND PRODUCTION LTD

# Pulman & Stilgoe - Hooray for Hollywood




**18 Ebrill / April 7:30pm**

Mae'r sioe gerdd Hollywood wedi swyno cynulleidfaoedd ers The Jazz Singer ym 1927, a bron i ganrif yn ddiweddarach, mae torfeydd yn dal i heidio i fwynhau'r caneuon, dawns, comedi a rhamant. 'Nawr, mae Liza Pulman a Joe Stilgoe yn dod â'r stori honno i'r llwyfan. Gyda harmonïau disglair, ffraethineb a thalent pur, maent yn adfywio caneuon ffilm-gerdd clasurol, dim sgrîn fawr, jyst perfformiadau bythgofiadwy yn llawn cerddoriaeth, chwerthin a chyfaredd oesol.

The Hollywood musical has captivated audiences since *The Jazz Singer* in 1927, and nearly a century on, crowds still flock to its magic of song, dance, comedy, and romance. Now, Liza Pulman and Joe Stilgoe bring that legacy to the stage. With dazzling harmonies, wit, and sheer talent, they revive classic movie-musical songs, no big screen, just unforgettable performances brimming with music, laughter, and timeless charm.

**£26.50 (£24.50)**



CYMDEITHAS GORAWL ABERYSTWYTH CHORAL SOCIETY

# Choral Society Spring Concert with Sinfonia Cambrensis

**Arweinydd | Conductor – David Russell Hulme**

**25 Ebrill / April 7:30pm**

Mae gan gôr mwyaf Aberystwyth gantorion rhwng 19 a 90 oed, gan gynnwys cantorion ifanc o Brifysgol Aberystwyth. Dyma'r unig gôr yn yr ardal sy'n cyflwyno perfformiadau graddfa-lawn o gerddoriaeth gorawl orau'r byd - a dyna sy'n ei wneud yn wahanol. Mae'r unawdwyr bob amser yn artistiaid proffesiynol o'r radd flaenaf; mae eu cerddorfa wych yn dod â cherddorion proffesiynol ynghyd o bell ac agos. Y canlyniad yw profiad unigryw.

Aberystwyth's largest choir has singers from 19 to 90 years old, including young choristers from Aberystwyth University. This is the only one hereabouts presenting full-scale performances of the world's great choral music – and that's what makes them different. The soloists are always top professional artists; their superb orchestra brings together professional musicians from near and far. The result is an experience like no other.

**£16.50 (£15.50 - £4.50)**



Theatr | Theatre

WILTON PICTURES

# Krapp's Last Tape by Samuel Beckett



**18 Chwefror / February 7:30pm**

Mae Krapp's Last Tape yn daith trwy fywyd hen ddyn, yn llawn atgofion doniol a gobeithion am y dyfodol, ynghyd â galaru am gariad coll ac uchelgais nas gwireddwyd. Mae'r cynhyrchiad hwn, a gyfarfwyddir gan Stockard Channing a enwebwyd ar gyfer Gwobr yr Academi, ac yn serennu David Westhead.

Mwynhewch ddrama glasurol Samuel Beckett, wrth i gynulleidfaoedd gael eu gwahodd i fyd unigedd, atgofion, breuddwydion, llawenydd ac anobaith Krapp.

Krapp's Last Tape is a journey through an old man's life, filled with hilarious memories and hopes for the future, coupled with the mourning of lost love and unfulfilled ambition. Directed by Academy Award nominee Stockard Channing and starring David Westhead.

Revel in Samuel Beckett's classic play, as audiences are invited into Krapp's world of solitude, memories, dreams, elation, and despair.

**£19.50 (£13.50, £11.50)**




MEWN CYMERIAD

# Waldo

**19 Chwefror / February 7:45pm**

Drama am Waldo Williams (1904-1971) - bardd dewrder, bardd tynerwch.

**£14 (£10)**

HIJINX

# Meet Fred



**28 Chwefror / February 7:30pm**

Deng mlynedd, 20+ o wledydd, a chwerthiniadau dirifedi yn ddiweddarach, mae Meet Fred gan Hijinx yn ôl! Mae'r dychan tywyll, doniol hwn, sydd wedi ennill clod rhyngwladol, yn dilyn Fred, pyped sy'n ymladd dros ei annibyniaeth wrth i'w Lwfans Byw fel Pyped gael ei fygwth. Mae'n cymryd golwg doniol a chwyldroadol ar fiwrocratiaeth, hawliau anabledd, a beth mae'n golygu i fod yn ddynol. Mae'r ffilm yn cynnwys iaith gref a noethni pypedau.

Ten years, 20+ countries, and countless laughs later, Hijinx's *Meet Fred* is back! This darkly funny, internationally acclaimed satire follows Fred, a puppet fighting for his independence as his Puppetry Living Allowance is threatened. It is a hilariously subversive take on bureaucracy, disability rights, and what it means to be human. The film contains strong language and puppet nudity. *"Sharp, funny and vastly entertaining"* – Lyn Gardner

**£18.50, (£15.50, £11.50)**

FLABBERGAST THEATRE

# Macbeth

**11 & 12 Mawrth / March 7pm**

Mae Macbeth gan Flabbergast yn cyfuno dull trylwyr a pharchus o drin testun ac adrodd straeon i ddod â dehongliad hudolus o drasiedi Shakespeare yn fyw.

Mae pypedwaith, clown, ensemble, theatr gorfforol, a cherddoriaeth fyw gyffrous yn cyfuno mewn dehongliad pwerus. Gyda set syml ac ensemble clos o actorion, mae'r perfformiad hwn yn amlygiad tywyll a theimladwy o hanfod y gwaith a'r themâu sylfaenol, gan dynnu sylw at y gyffelybiaeth â chymdeithas fodern.

Flabbergast's Macbeth fuses a rigorous and respectful approach to text and storytelling to bring a magical interpretation of Shakespeare's tragedy to life.

Puppetry, clown, ensemble, physical theatre, and exhilarating live music combine in a powerful interpretation. A stripped-back set and a tight-knit ensemble of actors, this performance is a dark and visceral manifestation of the work's essence and underlying themes, drawing out the parallels with modern society.

**£21.50 (£19.50, £11.50)**





Theatr | Theatre

FROZEN LIGHT THEATRE

# The Ancient Oak of Baldor

**16 & 17 Mawrth / March**
**11am & 1:30pm**

Mae Frozen Light yn eich croesawu i'w byd ffantasi diweddaraf. Stori werin am gariad, colled a chydgysylltiad popeth.


Profiad aml-synhwyraidd i gynulleidfaoedd ag anableddau dysgu dwys a lluosog a'u cymdeithion, gan gynnig y cyfle i ymgynnull a phrofi pŵer cyfunol straeon a rennir.

Frozen Light welcomes you to their latest fantasy realm. A folk tale of love, loss and the interconnectedness of all things.

A multi-sensory experience for audiences with profound and multiple learning disabilities and their companions, offering the chance to gather and experience the collective power of shared stories.

**£11.50 (Gofalwyr yn mynd am ddim | Carers go free)**





TRIONGL

# Is There Anybody There?

**19 Mawrth / March 7:45pm**

Mae seicig, ysbryd sy'n dwli ar ffitrwydd, a phlismones yn ymchwilio i farwolaeth, bywyd, a phopeth rhwng y ddau yn y gomedi ddwyieithog hon gan y cwmni theatr Cymreig TRIONGL. Cyflwynir y sioe yn ddwyieithog ac mae'n addas i ddysgwyr y Gymraeg a'r sawl nad ydynt yn siarad Cymraeg.

A psychic, a fitness-fanatic ghost, and a policewoman investigate death, life, and everything in between in this bilingual comedy from the Wales-based theatre company TRIONGL. It is presented bilingually but accessible for Welsh Language learners and non-Welsh language speakers.

**£14 (£10)**



THEATR GYMUNEDOL ABERYSTWYTH COMMUNITY THEATRE

# The Tenant of Wildfell Hall

**20 & 21 Mawrth / March**
**2pm & 7pm**

Addaswyd ar gyfer y llwyfan gan Lucy Gough.

Pwy yw'r ddynes ddirgel a symudodd i Neuadd Wildfell yn ddiweddar? Mae'r Neuadd yn ddiarffordd. Mae hi'n artist ac yn fenyw sengl gyda phlentyn; 'roedd y ddau gyflwr hwn yn cael eu diystyru gan gymdeithas y 19eg ganrif. Wrth i'r dirgelwch ddatblygu, datgelir bywyd o frwydr a dewrder. Mae'r ddrama wedi'i fframio gan resymau Anne Brontë dros ysgrifennu'r nofel ffeministaidd onest hon.

Adapted for the stage by Lucy Gough.

Who is the mystery woman who recently moved into Wildfell Hall? The Hall is isolated. She is an artist and a single woman with a child; both were frowned upon in 19th-century society. As the mystery unfolds, a life of struggle and courage is revealed. The play is framed by Anne Brontë's reasons for writing this honest feminist novel.

**£17.50 (£15.50)**

TSE CREATIVE PRODUCTIONS

# Club Mistero

**21 Ebrill / April 7:30pm**

Camwch i fyd disglair ond peryglus CLUB MISTERO, dirgelwch llofruddiaeth o'r 1920au yn Efrog Newydd sy'n llawn glitz, cyfrinachau a gwewyr. Y tu mewn i dafarn, mae un llofruddiaeth yn sbarduno brad, dial a chysylltiadau sy'n newid, lle gall unrhyw un fod yn euog. Gyda deialog finiog, troeon annisgwyl a chast deinamig, bydd y ddrama ymdrochol hon yn eich cadw ar bigau drain tan y diwedd. Pwy allwch ymddiried ynddo, a phwy fydd yn goroesi'r nos?

Step into the dazzling yet dangerous world of CLUB MISTERO, a 1920s New York murder mystery of glitz, secrets, and suspense. Inside a speakeasy, one killing sparks betrayal, revenge, and shifting alliances—where anyone could be guilty. With sharp dialogue, unexpected twists, and a dynamic cast, this immersive theatre keeps you guessing until the end. Who can you trust, and who will survive the night?

**£17.50 (£13.50, £11.50)**








RENDEZ-VOUS DANCE

# The Monocle

**13 Chwefror / February 7.30pm**

Croeso i'r Monocle, lle 'does dim byd yn amhosibl. Mae'r perfformiad dawns gyfoes hynod feistrolgar hwn, yn cynnwys y gantores jas gyfareddol Imogen Banks, yn cyflwyno stori nas adroddwyd *Le Monocle* - cabare lesbiaidd dirgel ym Mharis yn y 1930au. Y tu mewn mae'r awyr yn llawn cyfrinachau a chnawdolrwydd wrth i fenywod chwerthin ac yfed yn rhydd. Am un noson yn unig, profwch lawenydd rhyddhad gwirioneddol mewn lle diogel, angerddol.

Mae dehongliad BSL a disgrifiad sain ar gael ar gyfer y cynhyrchiad hwn

Welcome to *The Monocle*, where nothing is impossible. This virtuosic contemporary dance performance, featuring jazz chanteuse Imogen Banks, unveils the untold story of *Le Monocle* – a secretly notorious lesbian cabaret in 1930s Paris. Inside, the air shimmers with secrets and sensuality as women laugh, drink, and dance freely. For one night, experience the joy of true liberation in a safe, passionate space.

BSL interpretation and audio description is available for this production

**£19.50 (£17.50, £11.50)**

ACE DANCE AND MUSIC

## TWAWSI: The World As We See It

**6 Mawrth / March 7:30pm**

Mae bil dwbl pwerus cwmni dawns a cherddoriaeth ACE yn ailddiffinio dawns o'r Diaspora Affricanaidd. Yn ECHOES OF DUST gan Serge Aimé Coulibaly, mae saith unigolyn yn wynebu anhrefn, colled, a chwilio am obaith mewn byd toredig. Mae LETLALO gan Vincent Mantsoe yn ystyried cwlwm dynoliaeth gyda'r ddaear, wedi'i wreiddio mewn doethineb cyndadol, gan ddatgelu undod, pŵer, a hanfod ysbryd.

ACE dance and music's powerful double bill redefines dance from the African Diaspora. In *ECHOES OF DUST* by Serge Aimé Coulibaly, seven individuals confront chaos, loss, and the search for hope in a fractured world. *LETLALO* by Vincent Mantsoe explores humanity's bond with the earth, rooted in ancestral wisdom, revealing unity, power, and the essence of spirit.

**£18.50 (£15.50)**





POPPERFACE

## The Revenge of Popperface

**24 Ebrill / April 7:30pm**

Mae *The Revenge of Popperface* yn atgyfodi Popperface – ysbryd chwyddedig gyda gwefusau glas llawn amyl nitrad – mewn cyfuniad gwallgof o ddawns, ymladd a mursendod. Mae Gareth Chambers yn creu mytholeg ryfedd o wrywdod lle mae'r ocwlt a'r operatig yn curo o dan swyn disgo Amanda Lear.

*The Revenge of Popperface* resurrects Popperface – the blue-lipped, puffed-up spectre of amyl nitrate excess – in a delirious fusion of dance, combat, and camp. Gareth Chambers conjures a queer mythology of masculinity where the occult and operatic pulse beneath Amanda Lear's disco spell.

**£19.50 (£17.50 - £11.50)**






WARDENS THEATRE COMPANY

## Robin Hood

**7-24 Ionawr / January 11am, 3pm, 7pm**

Mae ffefryn y Panto Richard Cheshire yn dychwelyd i ysgrifennu, cyfarwyddo a serennu fel y Fonesig yn y cynhyrchiad ysblennydd hwn, gydag Elinor Powell yn gyfarwyddwraig gerddorol. Ymunwch â Robin Hood (Alex Neil), Friar Tuck (Ioan Guile), a'u band llawen wrth iddynt frwydro yn erbyn Siryf cas Nottingham (Nathan Guy). Gyda Theresa Jones, Donna Richards, Miriam Llwyd Davies, Sion Wyn, Julie McNicholls Vale, a chast lleol talentog, gallwch ddisgwyl hud, cerddoriaeth a llanast llwyr!

Panto favourite Richard Cheshire returns to write, direct, and star as Dame in this spectacular production, with Elinor Powell as musical director. Join Robin Hood (Alex Neil), Friar Tuck (Ioan Guile), and their merry band as they battle the wicked Sheriff of Nottingham (Nathan Guy). With Theresa Jones, Donna Richards, Miriam Llwyd Davies, Sion Wyn, Julie McNicholls Vale, and a talented local cast, expect magic, music, and mayhem!

**£26.50, £20 (£20, £26.50)| Oed/age suitable for all | 2 hours 10 min**

PRACTICALLY PERFECT PICTURES

# Sir Charlie Stinky Socks and the Really Big Adventure



**14 Chwefror / February 2pm**

Sioe deuluol sionc llawn hwyl, sy'n adrodd hanes Syr Charlie tra'n datgelu'r stori y tu ôl iddo, gan ddathlu pŵer dychymyg a phwysigrwydd chwarae. Bydd cynulleidfaoedd ifanc yn cael eu cludo i fydoedd hudolus mewn sioe gwbl ryngweithiol gyda phypedau hyfryd, propiau hudolus, cerddoriaeth fyw, gwahoddiad i barti arbennig iawn a llond bol o chwerthin!

A fun-filled, fast-paced, family show that tells Sir Charlie's tale while revealing the story behind it, celebrating the power of imagination and the importance of play. Young audiences will be transported into mystical realms in a fully interactive show with beautiful puppets, magical props, live music, an invitation to a very special party and more laughs than you can waft away with a stinky sock.

**£16.50, (£13.50) Tocyn Teulu / Family Ticket £40 | Oed/age 3+ | 60 munud/minutes**



MAKIN PROJECTS LTD / SCARLET OAK THEATRE

# Along Came a Magpie

**17 Chwefror / February**
**11am & 2pm**

Stori gynhesol am bwysigrwydd cysylltu ag eraill, hyd yn oed pan nad yw'r llwybr yn llyfn. Mae'r sioe ddeugain-munud hon wedi'i dyfeisio i ddifyrru plant 2-6 oed a'u hoedolion, gyda phypedwaith, planhigion a llawer o botiau.

A heartwarming tale about the value of connecting with others, even when the path isn't always smooth. This forty-minute show is designed to delight ages 2-6 and their grownups, featuring puppetry, plants and lots of pots.

**£11.50 (£7.50), Tocyn teulu / Family ticket £30 | Oed/age 3+ | 60 munud/minutes**



PARIS BUBBLES ENTERTAINMENT LTD

# The Ultimate Bubble Show

**20 Chwefror / February 2pm**

Mae Ray Bubbles, y Swigenydd Rhyngwladol sydd wedi'i gynnwys yn Llyfr Recordiau Guinness, yn benderfynol o greu'r bybl sgwâr eithaf! Gan ddefnyddio gwahanol nwyon mae'n crefftio cerfluniau ac effeithiau disglair gyda bybls, gan gynnwys folcano a charwsél, ysbryd, a hyd yn oed corwynt y tu mewn i bybl! Wedi'i hysbrydoli gan weithio gydag ysgolion SEND, grwpiau niwroamrywiol a chanolfannau gwyddoniaeth, mae'r sioe gynhwysol hon yn addas i bawb. Ymunwch â Ray i weld a all e' greu'r bybl sgwâr eithaf!

Ray Bubbles, International Bubbleologist and Guinness World Record Holder, is on a mission to create the ultimate square bubble! Using different gases, he crafts dazzling bubble sculptures and effects, from volcanoes and carousels to bubble ghosts and even a tornado inside a bubble. Inspired by work with SEND schools, neurodivergent groups, and science centres, this inclusive show is suitable for all. Come see if Ray succeeds!

**£13.50 (£11.50) | Oed/age suitable for all | 65 munud / minutes**




Teulu | Family

DYSGU CREADIGOL – CREATIVE LEARNING

## National Theatre Connections Festival: Home Performance

# Ride or Die




**13 & 14 Mawrth / March 7:45pm**

Mae'r plant wedi treulio'r flwyddyn gyfan yn dadlau a yw Alton Towers yn well na Thorpe Park. Mae'n gyfartal dau yn erbyn dau, ac mae'r bleidlais dyngedfennol yn mynd i Angel, yr ieuengaf, sydd heb fod eto - dim ond ar ddiwedd y flwyddyn y caiff blwyddyn 7 fynd. Mae hynny ymhen pythefnos, felly beth all fynd o'i le? Popeth: gwaharddiad Angel, gwyliau annisgwyl Nan, anhrefn Dad, a'r Plant yn peri niwed i gar Nan. Mae'r holl beth yn llythrennol yn ddamwain car.

The Kids have spent the whole year arguing whether Alton Towers is better than Thorpe Park. It's tied two-two, and the deciding vote goes to Angel, the youngest, who hasn't been yet, year 7s only go at year's end. That's in two weeks, so what could go wrong? Everything: Angel's suspension, Nan's surprise holiday, Dad's chaos, and The Kids crashing Nan's car. The whole affair is literally a car crash.

**£7.50 | Oed/Age 13+ | 60 munud / minutes**

MARK THOMPSON PRODUCTIONS LTD

# Natural History Museum Presents Dinosaurs Live

**14 Mawrth / March 12:30pm & 3:30pm**



Am y tro cyntaf ers 1881, mae Amgueddfa Bywyd Gwyllt Llundain yn mynd ar daith! Mewn cydweithrediad â Mark Thompson Productions, mae'n dod â deinosoriaid yn fyw ar y llwyfan. Teithiwch drwy'r cyfnodau Triasig, Jwrasig, a Chretasaidd, gan gyfarfod â chreaduriaid anhygoel, a darganfod ffosiliau, graddfeydd amser, a thrawsffurfiadau hynafol y Ddaear. Paratowch ar gyfer anturiaeth gynhanesyddol gyffrous gyda *Dinosaurs Live!*

For the first time since 1881, London's Natural History Museum is going on tour! Teaming up with Mark Thompson Productions, it's bringing dinosaurs to life on stage. Journey through the Triassic, Jurassic, and Cretaceous periods, meet life-like creatures, and discover fossils, time scales, and Earth's ancient transformations. Get ready for a roaring prehistoric adventure with *Dinosaurs Live!*

**£19, £18 | Tocyn Teulu / Family Ticket £62 | Oed/Age 3+ | 60 munud / minutes**



HELEN WYN PARI

## Cyngherddau Babi Brahms | Baby Brahms Concerts

**20 Mawrth / March 12pm & 2pm**

Cerddoriaeth glasurol fyw gan gerddorion profiadol. Awyrgych addas i fabanod o'r crud a theuluoedd ifanc. Croeso ichi fwydo, ddawnsio, ymlacio a chael eich swyno gan y gerddoriaeth. Cyfle hefyd i brofi 'r offerynnau y dirgryniadau a'r nodweddion sain unigryw.

Live classical music concerts by experienced musicians. A relaxed baby and toddler-friendly setting. Feed, dance and relax, letting the music wash over you. Experience the instruments.

**£9.50, £4.50 | Oed/Age: 0 hyd at oedran ysgol | 0 up to school age | 60 munud / minutes**

LYNGO THEATRE

## Hay!

**8 Ebrill / April 12:30pm & 2:30pm**

'Hay!' yw'r unig air yn ein sioe ni, ond mae'n golygu gymaint - y stwffin ym mwgan brain Geenie, y sŵn mae hi'n ei wneud pan ddaw e'n fyw a'i air cyntaf pan mae'n gweld holl ryfeddodau naturiol y byd. Sioe sy'n llawn pypedwaith, clownio, cân a dawns am dyfu i fyny a darganfod sut i fyw eich breuddwydion, lledaenu'ch adenydd a hedfan fel yr adar.

'Hay!' is the only word in our show, but it means so much – the stuffing in Geenie's scarecrow, the sound she makes when he comes to life and his first word when he sees all the natural wonders of the world. A show filled with puppetry, clowning, song and dance about growing up and discovering how to live your dreams, spread your wings and fly like the birds.

**Ticket price: £11.50 (£7.50), Tocyn teulu / Family ticket £30 | Oed/age 3+ | 50 munud / minutes**



MARK THOMPSON PRODUCTIONS LTD

## Ministry of Science Live!

**10 Ebrill / April
1pm & 4.30pm**



Yn syth o West End Llundain daw Ministry of Science Live. Ymunwch â hoff dîm gwyddoniaeth y DU ar gyfer arbrofion ffrwydrol, o gorwyntoedd tân i rocedi hydrogen a chymylau nitrogen hylif 20 troedfedd! Darganfyddwch sut y lluniodd gwyddonwyr, peirianwyr a dyfeiswyr ein byd, a sut y gallwch chithau hefyd. 100% Addysgiadol. 200% Difyr. 300% Ffrwydrol a 400% Hwyl!

Direct from London's West End, *Ministry of Science Live*, Join the UK's favourite science team for explosive experiments, from fire tornados to hydrogen rockets and 20ft liquid nitrogen clouds! Discover how scientists, engineers, and inventors shaped our world, and how you can too. 100% Educational. 200% Entertaining. 300% Explosive and 400% Fun!

**£19, £18 | Tocyn Teulu / Family Ticket £62 | Oed/Age 6-12 |1 hr 50 munud / minutes**





CLWB COMEDI
COMEDY CLUB
ABERYSTWYTH

LITTLE WANDER

## Comedy Club

**25 Chwefror / February
25 Mawrth / March
22 Ebrill / April
8pm**

Mae Little Wander, mewn cydweithrediad â Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, yn dod â dwy noson o gomedi gwych i chi sy'n cynnwys rhai o brif berfformwyr comedi y DU! Little Wander yw'r tîm tu ôl i wyliau comedi chwedlonol Machynlleth ac Aberystwyth.

Little Wander, in association with Aberystwyth Arts Centre, brings you three nights of fantastic comedy featuring lineups from some of the UK's top comedians! Little Wander is the team behind the legendary Machynlleth and Aberystwyth comedy festival.

**£14 (£12)**

SAM FREEMAN

## We're Not Getting a Dog

**12 Chwefror / February 7:45pm**

Mae hon yn stori am ysgrifennu llythyrau goddefol-ymosodol, glanhau'n gynnar yn y bore a gwneud tŷ yn gartref. Mae'n ymwneud â'r rhai sy'n byw, yn chwerthin ac yn caru, llathenni oddi wrthym, ond mewn gwirionedd, nad ydym yn eu hadnabod o gwbl.

Mae cwpl yn rhedeg trwy'r glaw i ddal bws.

Mae dyn yn syllu ar sgrîn wag gliniadur mewn anobaith.

Mae dynes yn agor amlen ac yn dod o hyd i lun y tu mewn.

Tŷ newydd ar stryd newydd gyda chymdogion newydd.

This is a story about passive-aggressive letter writing, early morning jet washing and making a house a home. It's about those who live, laugh and love meters from us, but who really, we barely know at all.

A couple runs through the rain to catch a bus.

A man stares at a blank laptop screen in desperation.

A woman opens an envelope to find a photo inside.

A new house on a new street with new neighbours.

**£14 (£10)**






GAYBERYSTWYTH BOOKS

## Queer Lit Quarterly

**20 Chwefror / February 6pm**

Gyda Llyfrau Gayberystwyth yn cyflwyno a gyda chefnogaeth Aberration Cymru, mae Queer Lit Quarterly yn dod â phanel o awduron LGBTQ+, ymchwilwyr, a ffans Llenyddiaeth Hoyw at ei gilydd am noson o drafod a gwerthfawrogi llenyddiaeth LGBTQ+. Os ydych chi wrth eich bodd efo Llenyddiaeth Hoyw, dyma'r digwyddiad eithaf i chi.

Hosted by Gayberystwyth Books and supported by Aberration Cymru, Queer Lit Quarterly brings together a panel of LGBTQ+ writers, researchers, and fans of Queer Literature for an evening of discussion and appreciation of LGBTQ+ literature. If you love all things Queer Literature, this is the ultimate event for you.

**£8**





KENDAL MOUNTAIN EVENTS

## Kendal Mountain Tour 2026

**26 Chwefror / February 7pm**



Mae Kendal Mountain Events yn dychwelyd am dymor arall o antur a chysylltiad dynol. Profwch y gorau o dirweddau godidog y byd trwy ddetholiad a guradwyd o ffilmiau antur byrion arobryn Gŵyl Mynydd Kendal. Ond nid anturio yn unig yw'r ffocws, mae adrodd straeon hefyd wrth wraidd y digwyddiad hwn. Ochr yn ochr â'r ffilmiau pwerus, bydd siaradwyr antur a grwpiau cymunedol lleol yn cymryd y llwyfan i rannu eu straeon personol eu hunain.

Kendal Mountain Events returns for another season of adventure and human connection. Experience the best of the world's stunning landscapes through a curated selection of Kendal Mountain Festival award-winning short adventure films. But it's not just about exploration; storytelling is at the heart of this event. Alongside these powerful films, adventure speakers and local community groups will take the stage to share their own personal stories.

**£20.50 (£15.50)**

## Cicio'r Bar

**05 Mawrth / March 7:45pm**

Ymunwch â Eurig a Hywel, dau ffrind a dau fardd lleol am noson llawn hwyl, barddoniaeth a chanu.

Join local Welsh prize-winning poets Eurig and Hywel for an evening of poems, singing and laughing.

**£11.50 (£9.50, £6.50)**



ADVERSE CAMBER PRODUCTIONS

## Stars and Their Consolations

**31 Mawrth / March 7:30pm**

Profwch straeon pwerus, hynafol gyda sain electro-acwstig gyffrous gan y gyfansoddwraig Sarah Liane Lewis a thafluniad cosmig. Plymiwch i mewn i anturiaeth gyfareddol a gwirioneddol hudolus. Byddwch yn dyst i'r duwiau'n chwarae'n ddidrugaredd gyda meidrolion gyda straeon am chwant, balchder ac angerdd a fydd yn eich gadael yn ysu am ddarganfod mwy…

Yn cynnwys dehongliad BSL

Experience powerful, ancient stories with a thrilling electro-acoustic soundscape by composer, Sarah Liane Lewis and cosmic projection. Dive into an enthralling and truly magical adventure. Witness the gods playing mercilessly with mortals with stories of lust, pride and passion that will leave you with a hunger to discover more…

Includes BSL interpretation

**£18.50 (£15.50,£11.50)**

# Cyn bo hir... | Coming soon...




02/05/26

**Justine Live – Justine Time to Rock!**




08/05/26

**K-Pop All Stars**



14/05/26

**Synergedd**




06/06/26

**Darkside, the Pink Floyd Show**




20/06/26

**Too Much Too Young - The Music of 2Tone & Beyond**




23/05/26

**An Evening of Burlesque Cabaret**



26/09/26

**Boyband in the Buff: Starring Gareth Gates**



12/06/26

**Amy Dowden & Carlos Gu: Reborn**



24/10/26

**Al Murray: All You Need is Guv!**

**Theatr Ieuenctid Isaf | Lower Youth Theatre**




Mai | May 2026

**Ysgol Lwyfan | Stage School**




Mehefin | June 2026

**Theatr Ieuenctid Hyn | Upper Youth Theatre**

## Connections Festival

Mai | May 2026

**Am y ffilmiau diweddaraf, clasuron a mwy ewch i'n gwefan i weld yr amserlen sinema fisol, neu glawch mewn am gopi - esgus am Amser Da!**


For new films, classics and more, check out our monthly cinema listings on our website or pop in for a timetable - Time Well Spent!

aberystwythartscentre.co.uk/cinema

# Sgriniadau byw | Live Screenings

**Mae ein sgrinidau byw o'r Theatr Genedlaethol, y New York Met a'r Opera Brenhinol, yn ein sinema gyfforddus yn gyfle ichi fwynhau darllediadau byw o bob cwr o'r byd heb orfod gadael Aber!**

Our live broadcast shows from the National Theatre, New York Met and the Royal Opera, allow you to watch the best live performances from across the globe in our comfy cinema in Aberystwyth!





Sgriniadau byw o'r Theatr Genedlaethol / Live Screenings from the National Theatre

NT LIVE
## Hamlet
22/01/26 - 7pm

Sgriniadau byw o'r Opera a Ballet Brenhinol / Live Screenings from the Royal Opera and Ballet



## La Traviata (Verdi)
14/01/26 - 6:45pm
19/01/26 - 1pm



## Woolf Works
09/02/26 - 9:15pm
13/02/26 - 1pm

Sgriniadau byw o Operau y Met yn Efrog Newydd / Live Screenings from the New York Met Opera



## I Puritani
10/01/26 - 6pm
16/01/26 - 1pm



## Tristan Und Isolde
21/03/26 - 4pm
27/03/26 - 12pm - ENCORE



## Siegfried (Wagner)
31/03/26 - 5:15pm
02/04/26 - 11am



